# Y Fforwm Gweithwyr
## 15 Ebrill 2026

Cynrychiolwyr yr Aelodau yn Bresennol:
Y Cynghorydd M Bowen, Dr M Havard, Mrs S Hoss, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd C Williams.

Cynrychiolwyr y Staff yn Bresennol:
C Broome, D Hughes, B Jones, G Jones, T Jones, R Lovell, A McConchie, B Rees, ac Alannah Simonson.

Y Swyddogion yn Bresennol:
J Arkley (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), TD Jones (Prif Weithredwr), C Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd - Cofnodion).

Cynrychiolwyr yr Undeb yn Bresennol:
J Lewis (Unsain).

(Cyfarfod Rhithiol: 10:00am – 10:40am)

**1. Ethol Cadeirydd am y cyfarfod**

Ar gynnig TD Jones, **penderfynwyd** bod G Jones yn cymryd y gadair am y cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth K Gravell, Mr GA Jones a C Price.

**3. Cyflwyniadau**

Roedd pawb oedd yn bresennol wedi cyflwyno eu hunain.

**4. Datgan Buddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2025 i’w cadarnhau a’u llofnodi.

Tynnodd T Jones (Cynrychiolydd Staff) sylw at y ffaith ei fod wedi cael ei gofnodi'n anghywir fel un oedd yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol, er nad felly oedd hi. Cytunwyd y dylid diwygio rhestr bresenoldeb y cyfarfod blaenorol.

Ar gynnig y Cynghorydd V Thomas, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **cytunwyd** y dylid dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12

Mawrth 2025, yn amodol ar ddiwygio’r rhestr bresenoldeb.

**6. Log Gweithredu**

O ran cam gweithredu 944, yr Achrediad Cyflog Byw, cadarnhaodd y Prif Weithredwr, er bod yr Awdurdod yn parhau i dalu'r cyflog byw i’r staff, nad oedd achrediad wedi'i sicrhau eto oherwydd newidiadau yn y prosesau caffael a'r modd y byddai hyn yn effeithio ar gontractwyr. Er gwaethaf yr her hon, cadarnhawyd bod yr Awdurdod yn dal i anelu at gyflawni'r achrediad ac wedi ceisio arweiniad gan Cynnal Cymru i symud y mater yn ei flaen.

**Nodwyd.**

**7. Adroddiad ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Pobl adroddiad oedd yn adolygu’r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd ac yn cynnwys manylion ynghylch y broses, yr ymgysylltu â’r staff, y prif ganlyniadau, yr effeithiau ariannol, yr amserlen, yr apeliadau, a'r gwersi a ddysgwyd o'r broses.

Gofynnodd Cynrychiolydd Staff a fyddai cyfle gan y staff i gael eu swyddi wedi’u hailasesu yn y dyfodol pe bai eu dyletswyddau yn esblygu. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod gan bob aelod o’r staff yr hawl i ofyn am gael eu swydd wedi’i hailasesu 12 mis ar ôl yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd cyn belled â bod newid sylfaenol wedi digwydd yn eu swydd. Cytunwyd y byddai'r broses apelio a'r ffurflen yn cael eu lan-lwytho ar Parcnet fel nodyn atgoffa i’r staff.

Cynigiodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl gynnal sesiynau briffio i’r staff ar y broses o werthuso swyddi, a chytunodd y Cynrychiolwyr Staff i ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb gan staff yn eu hardaloedd.

Nodwyd bod y cwmni West Midlands Employers wedi derbyn tâl o £27,084 am y gwaith a wnaed ganddynt ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd, a gofynnodd Cynrychiolydd Staff a oedd yr Awdurdod o’r farn bod hyn yn werth am arian. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod o’r farn bod y gost yn briodol ac yn gyfiawn o ystyried lefel y gwaith a wnaed gan WME yn ystod y broses. Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod bod yr amser a gymerwyd wedi bod yn hirach nag a ragwelwyd, a bod hynny wedi effeithio ar y costau, fodd bynnag, roedd yr Awdurdod wedi datblygu perthynas waith dda gyda WME a arweiniodd at gyflawni canlyniad boddhaol i'r staff ac i'r sefydliad.

O ran y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r broses, gwnaeth Aelod sylw y gallai cyfathrebu yn amlach â’r staff yn ystod hynt yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd fod yn fuddiol, ac roedd y Swyddogion yn cydnabod hynny.

Nodwyd, o ganlyniad i'r Adolygiad, y byddai lwfansau cymorth cyntaf yn cael eu dileu fesul cam dros amser. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod y lwfans wedi bod yn drefniant hanesyddol, a dim ond nifer fach o swyddogion cymorth cyntaf cymwys o fewn yr Awdurdod oedd yn ei dderbyn, felly cytunwyd y dylid ei ddileu yn raddol.

Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddiolch i UNSAIN am gefnogi'r Awdurdod a’r aelodau unigol o’r staff gydol y broses adolygu. Mewn ymateb, canmolodd UNSAIN yr Awdurdod am eu dull o ymdrin â'r Adolygiad, oedd wedi bod yn glir ac yn dryloyw, ac am gynnwys Cynrychiolwyr UNSAIN ym mhob cam priodol o’r broses i sicrhau bod y swyddi yn cael eu hasesu'n deg ac yn gywir.

**Nodwyd.**